# Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr

## Diweddariad ar Ddigwyddiad Gwybodaeth Wythnos Gofalwyr

**Ar gyfer rhieni a gofalwyr oedolion ag anableddau dysgu a rhieni plant ag anghenion ychwanegol yng Ngwynedd**

**Ym mis Mehefin 2023 cynhaliodd Cynnal Gofalwyr Ddigwyddiad Gwybodaeth Wythnos Gofalwyr i rieni a gofalwyr yng Ngwynedd.**

### Ynglŷn ag Wythnos Gofalwyr

**Mae Wythnos Gofalwyr yn ymgyrch flynyddol i godi ymwybyddiaeth o ofalu, tynnu sylw at yr heriau y mae gofalwyr di-dâl yn eu hwynebu a chydnabod y cyfraniad y maent yn ei wneud i deuluoedd a chymunedau ledled y DU. Mae hefyd yn helpu pobl nad ydyn nhw'n meddwl amdanyn nhw eu hunain fel rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu i nodi eu bod yn ofalwyr a chael mynediad at gymorth sydd ar gael.**

Daw'r ymgyrch yn fyw drwy gynnal amrywiaeth o gyfleoedd i ofalwyr cael cymorth. Gwneir hyn drwy gynnal gweithgareddau, amlygu'r rôl hanfodol y mae gofalwyr yn chwarae yn ein cymunedau a thynnu sylw at ba mor bwysig yw gofalu.

### Ein Digwyddiad Gwybodaeth

**Cynhaliwyd digwyddiad Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr yng Nghanolfan Hamdden Glaslyn, Porthmadog gyda'r nod o ddarparu gwybodaeth a chefnogaeth berthnasol i rieni sy'n ofalwyr yng Ngwynedd**.
Mynychodd sawl sefydliad y digwyddiad i ddarparu gwybodaeth a chefnogaeth ar ystod eang o bynciau, gan gynnwys iechyd a gofal cymdeithasol, pryderon ariannol, technoleg a llawer mwy.

Mynegodd llawer o rieni a gofalwyr ddiddordeb yn y digwyddiad ond nad oeddent yn gallu bod yn bresennol oherwydd rwymiadau eraill. Felly, rydym wedi cynhyrchu'r bwletin hwn i rannu rhywfaint o'r wybodaeth o'r diwrnod.

## Mwy am Wasanaeth Cynnal Gofalwyr

Cyflwynodd Ella Simpson, Swyddog Cefnogi Rhieni a Gofalwyr  ddiweddariad ar y gwasanaethau a ddarperir gan Wasanaeth Cynnal Gofalwyr. Soniodd am y grwpiau cefnogi ar-lein sy'n cael eu cynnal yn fisol ar gyfer rhieni/gofalwyr oedolion a phlant.



Dyma Ella yn y llun gyda'r Cynghorydd Dilwyn Morgan a ymunodd â ni ar y diwrnod i ddangos ei gefnogaeth

Mae rhieni a gofalwyr wedi dweud wrthym fod y grwpiau hyn wedi bod yn bwysig iawn iddynt yn ystod pandemig Covid-19. Roedd yn lle diogel, anfeirniadol i siarad ag eraill a oedd yn deall. Mae'r grŵp cefnogi ar-lein yn parhau i gael ei gynnal gan mai dyma y mae rhieni a gofalwyr wedi gofyn amdano.

Bydd grŵp cefnogi newydd yn cael ei gynnal yng Nghaernarfon ar gyfer rhieni plant ag anghenion ychwanegol - cysylltwch ag Ella am fanylion pellach neu edrychwch ar dudalennau canol cylchlythyr Y Gofalwr Rhifyn 106. Mae'r wybodaeth hefyd ar ein gwefan.

Rydym yn darparu gwybodaeth a chefnogaeth emosiynol i rieni a gofalwyr, yn gweithio mewn partneriaeth ac yn cyfeirio at asiantaethau eraill a allai gynnig cymorth sydd ei angen.
Mae gan Gynnal Gofalwyr 2 garafán yn Hafan y Môr, Pwllheli y gall gofalwyr eu harchebu am bris gostyngol.

Soniodd Sarah Cook am Gronfa Llesiant Gwynedd sydd ar agor i ofalwyr sydd wedi cofrestru gyda Chynnal Gofalwyr. Mae'r gronfa yno i wella iechyd a lles gofalwyr di-dâl.
Mae enghreifftiau o'r hyn y mae gofalwyr wedi gwneud cais amdano yn cynnwys:


Sarah Cook

- diwrnodau allan gyda'r teulu
- seibiant byr gyda neu heb y person yr ydych yn gofalu amdano
- ffioedd cyrsiau addysg, llyfrau neu offer
- aelodaeth campfa, dosbarthiadau ymarfer corff, sesiynau nofio
- prynu eitemau ar gyfer gweithgaredd neu hobi fel beic
- diwrnod sba, tylino a therapïau amgen
- tabled i gysylltu â ffrindiau a theulu, gwneud eich siopa gartref ar-lein neu ymuno â sesiynau ar-lein
- cyflogi gweithiwr cefnogol / garddwr / glanhawr. Hefyd mae grantiau eraill ar gael i ofalwyr.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Chynnal Gofalwyr; mae ein manylion cyswllt ar y dudalen flaen.
Ewch i'n gwefan am wybodaeth i rieni a gofalwyr:
**https://carersoutreach.org.uk/cymraeg/byrddau-gwybodaeth-a-phadledi.html**

## Cafwyd cyflwyniadau gan:
## Tîm Anabledd Dysgu Gwynedd - Oedolion




Soniodd Lois Wiggins, Rheolwr Tîm Anabledd Dysgu Gwynedd am y gwasanaeth nyrsio, siaradodd Helen Fon Owen, Rheolwr Gwasanaeth Anabledd Dysgu Gwynedd am y Gwasanaethau Cymdeithasol a soniodd Eryl Price Williams am y prosiect Lles - Llwybrau Llesiant sydd yn trefnu gwahanol weithgareddau ledled Gwynedd.
Mae'r holl wasanaethau uchod wedi'u teilwra i anghenion person ag anableddau dysgu, yn dilyn asesiad o'u hanghenion. Mae gwasanaethau'n amrywio o berson i berson. Roeddent yn annog rhieni a gofalwyr i gysylltu gyda'r tîm am fwy o wybodaeth .
**https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Preswylwyr/Iechyd-a-gofal-cymdeithasol/Anabledd/Anabledd.aspx**



### Gwiriadau Iechyd Blynyddol
Eglurodd Sophie Trow, Swyddog Gwiriad Iechyd, sut mae hyrwyddwyr archwiliadau iechyd yn annog pobl ag anableddau dysgu i gael eu gwiriadau iechyd blynyddol mewn meddygfeydd.
**https://www.conwy-connect.org.uk/hyrwyddwyr-gwirio-iechyd**

### Gwasanaeth Trosglwyddo Teuluol
Eglurodd Sammy am y gwasanaeth Trosglwyddo sy'n cefnogi pobl ifanc i wneud penderfyniadau a rhannu eu huchelgeisiau ar gyfer y dyfodol.
**https://www.conwy-connect.org.uk/transition**

### Prosiect Trawsnewid Anabledd Dysgu




Siaradodd Sioned a Paul am y gwahanol brosiectau y mae'r Prosiect Trawsnewid Anabledd Dysgu yn gweithio arnynt. Maent yn cynnwys y blynyddoedd cynnar, y cyfnod trosglwyddo, technoleg tai, a llawer mwy. Dyma'r ddolen i'w gwefan.
**https://gogleddcymrugydangilydd.org/gwybodaeth-am-y-prosiect**

### Nyrsys ysgol



Siaradodd Elain Jones am y prosiect newydd hwn sy'n targedu plant a phobl ifanc nad ydynt yn cyrraedd y meini prawf i dderbyn gwasanaethau gan Derwen.
Am ragor o wybodaeth
✉ **BCU.SNALNGwyneddAndMon@wales.nhs.uk**

**Sefydliadau eraill a ddarparodd stondinau gwybodaeth oedd:**

## Derwen

Mae Derwen, y Tîm Integredig ar gyfer Plant Anabl, yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc 0 - 18 oed yng Ngwynedd. Mae'r tîm yn darparu cymorth arbenigol ar gyfer:

- ag amhariad / oediad yn eu datblygiad
- anabl
- â gwaeledd.

**https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Iechyd-a-gofal-cymdeithasol/Hwb-teuluoedd/Tîm-Integredig-Plant-Anabl.aspx**

**Roedd Adran Costau Byw ac Adran Tanwydd Cyngor Gwynedd** ar gael i roi gwybodaeth a chefnogaeth yn ystod yr argyfwng ariannol presennol.

**Mae Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig** yn cefnogi unigolion drwy'r trawsnewidiadau amrywiol yn eu bywydau, ac yn helpu pobl i gyflawni'r pethau sy'n bwysig iddyn nhw .

**https://autismwales.org/cy/news/asd-wales-contacts/gwasanaeth-awtistiaeth-integredig-gogledd-cymru/**

**Hwb teulu Gwynedd, Plant yn Gyntaf a Thîm o Amgylch y Teulu**

**https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Iechyd-a-gofal-cymdeithasol/Hwb-teuluoedd/Hwb-Teuluoedd-Gwynedd.aspx**

**Hoffai Cynnal Gofalwyr glywed gennych**

I gael rhagor o wybodaeth am gynnwys y bwletin hwn, cysylltwch â:




Ella and Gwyneth

**Gwyneth Roberts, Swyddog Cefnogi Gofalwyr rhieni a gofalwyr oedolion ag anableddau dysgu.**

**Ella Simpson, Swyddog Cefnogi Gofalwyr rhieni a gofalwyr plant ag anghenion ychwanegol.**

Byddem yn croesawu unrhyw syniadau sydd gennych ar gyfer unrhyw ddigwyddiadau gwybodaeth y gallwn eu trefnu yn y dyfodol, er enghraifft: Pŵer Atwrnai a'r Llys Gwarchod, Ewyllysiau ac Ymddiriedolaethau, cyngor cyfreithiol, derbyn a rhyddhau o'r ysbyty, technoleg gynorthwyol ac ati.

Mae ein manylion cyswllt ar y dudalen flaen.